# PWYLLGOR PERSONÉL

**(Multi Location Microsoft Teams/Council Chamber)**

| | |
|---|---|
| **Aelodau sy'n bresennol:** | **Dydd Llun, 22 Mai 2023** |
| **Cadeirydd :** | **Cynghorwyr S.A.Knoyle** |
| **Cynghorwyr**: | A.J.Richards (Is-Cadeirydd), T.Bowen, C.Clement-Williams, S.Grimshaw, J.Hale, J.Henton,, D.Keogh, C.Lewis, C.Phillips, S.Pursey |
| **Aelodau di-bleidlais:** | Cynghorwyr S.Hunt, W.F.Griffiths, N. Jenkins, S. Jones, D.M.Peters. |
| **Swyddogion yn bresennol:** | S.Rees, R.Mort ac S.McCluskie |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
   I ddechrau, atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor o'r atodiad hwyr a ddosbarthwyd mewn perthynas ag eitem 6 ar yr agenda.

   Nodwyd ymddiheuriadau hefyd gan y Cyng. A Llewellyn (Dirprwy Arweinydd), y Cyng. P D Richards a'r Cyng. C J Hurley.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2023 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

4. **ADOLYGIAD O'R POLISI TEITHIO A CHYNHALIAETH**

   Darparwyd trosolwg i'r Aelodau i'r adroddiad a ddosbarthwyd, gan Bennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol.

   **Penderfyniad:**
   Bod Aelodau yn cymeradwyo'r Polisi Taliadau Teithio a Chynhaliaeth.

**Rhoi ar waith:**
Bod y penderfyniad yn cael ei roi ar waith yn dilyn cyfnod galw i mewn tri diwrnod, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Gwener 26 Mai 2023.

**Ymgynghoriad:**
Nid oes gofyniad i ymgymryd ag ymgynghoriad allanol, fodd bynnag mae'r polisi wedi'i gymeradwyo'n llawn gan yr Undebau Llafur.

5. **ADRODDIAD GWYBODAETH GWEITHLU 2022/2023 CHWARTER 4**

Rhoddwyd trosolwg i Aelodau'r Pwyllgor i'r adroddiad a ddosbarthwyd, gan Bennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol.

Fel ar yr adroddiad, rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ynghylch gweithlu'r cyngor o ran cyflogaeth, patrymau gwaith, ymunwyr, gadawyr ac agweddau allweddol mewn perthynas ag absenoldeb salwch.

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

6. **ADRODDIAD DIWEDDARU CYNLLUN GWEITHREDU'R MENOPOS**

Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar y llwyddiant diweddar sef ennill Gwobr 'Innovation' yn Seremoni Gwobrau CNPT, o ran rhoi Cynllun Gweithredu'r Menopos ar waith, atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Aeth Aelodau ymlaen i longyfarch Swyddogion ar y llwyddiant.

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

7. **EITEMAU BRYS**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys

datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 12 ac 15 Adran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod

9. **ADRODDIAD MEINCNODI BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU**

Rhoddwyd trosolwg i'r Aelodau o'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

10. **DIWEDDARIAD AR DRAFODAETHAU TÂL CENEDLAETHOL MAI 2023 - ADRODDIAD PREIFAT**

Aeth y Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol ymlaen i roi diweddariad i'r Pwyllgor o'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth, ac unrhyw ddiweddariadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor.

**CADEIRYDD**